

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref y Bala: **Nos Iau 7fed o Fawrth 2013**

931. Croeso ac Ymddiheuriadau: Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer Miss Shan Ranson. Yn bresennol Shan Ranson, Dorothe Evans, Dilwyn Jones, Sharon Evans, Dilys Evans, Eifion Roberts, Islwyn Pritchard Jones, Alun Price, Ivora Jones, Gwynedd Huws Jones, Glenda Lloyd Evans, Mari Wynne, Noela Jones, Aeron Jones
Derbynwyd ymddiheuriadau gan Edith Roberts, Dilwyn Morgan, John Williams, Elwyn Edwards, Yr Heddlu, Matron Catrin Morruss.

932. Datgan Buddiant

Ni ddatganwyd byddiant.

933. Cadarnhau Cofnodion 7fed o Fawrth 2013

Darllenwyd ac cafwyd yn gywir.

934.

Croesawyd Glenda Lloyd Evans, Rheolwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd, Mari Wynne, Gweithiwr Cymdeithasol Lleol a Noela Jones, Cyfarwyddwr Tai Clwyd, yn anffodus derbynwyd ymddiheurad gan Matron Catrin Morruss. Mae Awel y Coleg nawr wedi agor rhai misoedd ac mae yr adborth wedi bod yn bositif. Mae ychydig unedau ar ol ac os oes rhywun lleol a diddordeb i cysylltu. Mae cytundeb wedi eu baratoi rhwng Tai Clwyd ac y Bwrdd Iechyd i un uned cael eu llogi gan y Bwrdd Iechyd. Mae nhw yn gobeithio i'w ddefnyddio i cleifion lleol sydd ddim digon sal i fod yn ysbyty ond dim digon da i fod adref. Gall hyn felly osgoi mynediad i ysbyty. Hefyd os oes gofalmwr angen seibiant bydd trefniant i'w hanwyliaid fynd yno am gofal ysbaid am wythnos neu ddwy. Mae rhaid asesu beth yw y galw a wnaiff efallai gymeryd blwyddyn i wybod hyn, bydd pamffledi gwybodaeth allan yn y dyfodol agos. Wnaeth Ms Evans son bod Cyngor Gwynedd, diwedd haf diwethaf wedi rhoi datganiad yn y wasg os oedd datblygwyr yn barod i ddod i ardal De Meirionydd (Bala –Tywyn) i comisynu cartref nyrsio ond nid oes ymateb cefnogol hyd yn hyn, ond mae yn rhywbeth mae Gwynedd ac y Bwrdd Iechyd yn edrych fewn iddo.

935. Materion yn codi o'r cofnodion:

Arwyddion Parcio – gwnaed cais am arwydd rhybydd ger Ysgol Bro Tegid gan fod parcio ger y llinellau sig sag. Derbynwyd cadarnhad bod gorchymun parcio yn cael eu baratoi ond yn y cyfamser mae gan yr heddlu hawliau os yw cerbydau yn creu amhawster i lif traffic. Cynigiad am Archfarchnad- Parc menter y Bala (hen safle System scaffolding)-eisiau dod atom i rhoi fwy o wybodaeth - anfon i'w gwahodd i cyfarfod tro nesaf os yn bosibl

936. Materion yr Heddlu:

Derbynwyd ymddiheurad gyda nodyn bod sawl ymgyrch yn mynd ymlaen ac bod ceir anhysbys i ddal pobl heb feltiai diogelwch a gyrru tra ar eu ffonau symudol a mynd ar ol "boy racers".

937. Materion Cynghorydd Sir

Yn anffodus derbynwyd ymddiheuriad.

938. Materion Cynllunio:

Gan bod nifer o'r cyhoedd yn holi y cynghorwyr am cynlluniau i'r tir ger Plas yn Dre, y clerch wedi holi'r sefyllfa, mae cais wedi eu gyflwyno ar 12 Rhagfyr 2012. Mae y cais wedi eu gymeradwy yn ddarsotyngedig ar amodau. Mae trafodaethau yn mynd ymlaen i ceisio bod 6 o'r fflatiau ac amod 106 i sicrhau meddianaeth bersonal lleol arnynt.

939. Materion Cyllid:

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc

Cymeradwyd i dalu bil Vodafone, cyflog y clerc, costau y clerc Ionawr – Mawrth 2013, bil yr Archwiliwr mewnol John D Roberts, Canolfan Bro Tegid am llogi'r neuadd, Cyngor Gwynedd – goleuadau nadolig., Antur Waunfawr –gwastraff cyfrinachol. Derbynwyd cais ariannol hwyr gan y Cymdeithas Chwaraeon ac Adloniant, cytunwyd i gyfrannu ac i anfon nodyn bod angen ceisiadau i ddod i law cyn diwedd Ionawr gyda mantolen ariannol.

940. Gohebiaeth:

LLywodreth Cymru – llyfryn diweddariad Rhifyn 1 Ionawr 2013

Cyngor Gwynedd – arolwg – Dyfodol Arian Ewrop yng Ngogledd Cymru - arolwg ar y we
Cyngor Gwynedd – Rhaglen Waith mis Mawrth: Newid cebl golau stryd diffygiol yn Heol Tegid
Cyngor - Rheolwr Datblygol Byw'n Iach – gwybodaeth am arwyddion di fwg i meusydd chwarae plant

Urdd Gobaith Cymru – Gwyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd 2014 i'w gynnal
Sadwrn 27 Ebrill 2013 ym Mlaenau Ffestiniog,

Scottish Power – Gwybodaeth ddiweddar Fferm Wynt Coed Dyfnant gyda diwrnodau gwybodaeth i'r cyhoedd

Nifer o derbyniadau wedi dod i law a diolch am sawl llythr diolchgar hefyd: Ambiwllans Awyr, Teulu Berwyn, Eisteddfod Genedlaethol Ddinbych, Capel Tegid/Saesneg, Canolfan y Plase/Cantref, Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru, Clwb Ieuenctid y Bala, Cymorth i DDioddefwyr, Hospis yr Eos, Shelter Cymru, Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan, Dislecsia Cymru, NSPCC Cymru, GIsda, Clwb Peldroed Ieuenctid, Gofal Croes ffyrdd, Age Cymru, Grwp Mynediad Meirionnydd, Llythr yn awgrymu cael marachnad wythnosol, pasio ymlaen i Cyngor Gwynedd a Pwyllgor Siopau

Partneriaeth Penllyn –cofnodion cyfarfod Chwefror 2013

Llythr yn tynnu sylw at edrychiad a diffrod i'r cofeb ar yr Arenig ac gan bod 70 mlynedd yn Awst os dylid rhoi sylw iddo. Tynnu sylw y person at nad yw yn anghof oherwydd mae plac yn y dref hefyd ar adeilad y Cyngor Henblas.

Age Cymru – Bore Gwybodaeth i'r cyhoedd ar 14 o Fawrth sgwrs am eu gwasanaethau.

941.Materion Brys

Amserlen Bwsiau- Mae Arriva wedi cyhoeddi bydd amserlen newydd yn dod i rym ar 11 o Fawrth ac bydd ddim bysiau hwyr h.y. ar ol 5.40 pm o Wrecsam a bws olaf yn gadael Bermo am 4.40pm. Erbyn heno rydym wedi cael ar ddealt dod datblygiadau addawol. Tomen y Bala – Gofynwyd i'r clerc trefnu agor y giat at gwyliau'r Pasg, gan bod y bylchau yn y gwrych wedi eu cau.

Biniau Maes Chwarae – biniau ddim yn cael eu gwagu ger y Pafiliwn, gofyn i'r Cymdeithas cysylltu a Cyngor Gwynedd

Arwyddion Blaenddol – awgrymiad bod angen arwyddion ddim chwarae pel, polisi yw bod angen y trigilion eu hunain siarad a'r warden Cartrefi Cymunedol, Arwel Williams, bydd yn cynnal syrjeri dderbyn cwynion/sylwdau 4-5 o gloch Cysgod y Coleg ar nos Wener cyntaf bob mis a bydd cwynion yn aros yn breifat.

Our visitors this evening came to inform us about Awel y Coleg and that as the units are filling up any locals that are still considering need to move quickly, as we understand they will then be offered outside the locality. A unit will hopefully be in place for May when they will be an apartment let to the Health Board who will utilise as a respite unit ,so that carers can have a short rest and also if a patient is well enough to leave hospital but still requires a short period of care before actually going home.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc